**Kirsty Williams AC/AM**
**Y Gweinidog Addysg**
**Minister for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-880
Ein cyf/Our ref KW/07641/19

Janet Finch-Saunders AC
Cadeirydd - Y Pwullgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

SeneddDeisebau@cynulliad.cymru

12 Rhagfyr 2019

Annwyl Janet Finch-Saunders AC,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 2 Rhagfyr yn dilyn fy ymateb i'ch llythyr chi dyddiedig 29 Hydref ynghylch yr astudiaeth ddichonoldeb ar addysg cerddoriaeth.

Fel imi ddweud yn fy ymateb blaenorol ar y mater hwn, yn dilyn argymhellion y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, roedd fy swyddogion wedi cydweithio â rhanddeiliaid allweddol i ystyried yr astudiaeth ddichonoldeb arfaethedig a chylch gwaith yr astudiaeth. Yn dilyn y gwaith hwnnw, penderfynais fynd ati i gomisiynu contractiwr annibynnol i gynnal astudiaeth ddichonoldeb i ystyried opsiynau ar gyfer darparu gwasanaethau addysg cerddoriaeth yng Nghymru yn y dyfodol.

Cafodd y contract ei hysbysebu ar GwerthwchiGymru. Mae'r broses gaffael yn cymryd amser, ond mae'n sicrhau bod cyflenwr addas yn cael ei bennu mewn proses deg, agored a thryloyw. Cafodd y contract ei ddyfarnu ar 8 Ebrill, ac fe ddechreuwyd ar y gwaith yn syth.

Roedd y contractiwr yn cydweithio ag amrywiaeth o randdeiliaid ym mhob rhan o Gymru i gasglu tystiolaeth ac adborth. Rwy'n siŵr eich bod yn gwerthfawrogi bod gwaith ymgysylltu o'r fath yn gallu cymryd amser.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Pan ddaeth yr astudiaeth i ben, cytunwyd ar estyniad i ganiatáu i'r contractiwr ystyried y dystiolaeth a gasglwyd ac asesu'r opsiynau ar gyfer gwasanaethau addysg cerddoriaeth yn llawn.

Rwy'n ymwybodol ein bod yn disgwyl yr adroddiad terfynol yn ystod y diwrnodau nesaf, ac rwy'n edrych ymlaen at y canfyddiadau. Byddaf mewn sefyllfa wedyn i ddarparu rhagor o wybodaeth ac i ystyried dyfodol gwasanaethau addysg cerddoriaeth yng Nghymru.

Yn gywir,



**Kirsty Williams AC/AM**
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education